

Llên Natur



Bwletin 103 Medi 2016

Mewn partneriaeth a Chymdeithas Gwaith Maes, yn ymgorffori Llygad y Dydd



Pry scorpion - ond tydy hwn DDIM yn pigo ac yn gwbwl ddiniwed - er yr olwg ffyrnig i'r gynffon

Ian Keith

Pryfed plagus mis Medi

Llundain 7 Medi 1757: "dyma hin baradwsaidd? pryaifd cochion a elwir yn bugs yn fy mhigo'r nos. Gwrachod y twcca *are called by some church bugs.. they are a very great plague...* odd that they are not to be seen in airy countrys [sic] like Wales but common in Spain? the weather is so hot I can write no more" Llewelyn

Morris (Llythyrau Morrisiaid Môn)


Pyds oedd y pryfed cochion mae'n debyg? Sef 'bedbugs'. Gweler yma gan gan Bethan Wyn Jones am y gair Cymraeg (nad yw'n ymddangos yn GPC am ryw reswm). Pry lludw ydi gwrach y twcca, anifail gwahanol – ond rhyfedd nad oeddynt i'w cael yng Nghymru! Rhywbeth arall felly mae'n debyg. Dafydd Lewis

Waunfawr 15 Medi 2013: Cymylau ben ore 8/8. Bore gwyntog stormus o'r de orllewin (ers y bore bach?). Brafiach a thawelach gyda'r nos Pryfed ffrwythau *Drosophila*(?) yn y tŷ ac yn gwyltio G fel arfer! Duncan Brown

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd (Rhif Elusen: 1126027)

Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter. Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk

Dyddiadau cofnodi HELA CERIG (sic), Faenol Isa, Tywyn (Meir) 1874 - 1883



Yn y ddau Fwletin diwethaf (Rhifyn 101 a 102) trafodwyd rhywfaint ar y gwaith o hel cerrig ar ffermydd Cymru. Dyma ddod ar draws trysorfa helaeth o gofnodion nas ystyriwyd tan rwan gan fod y system chwilio wedi methu ag adnabod tafodiaith y ffermwyr Edward Edwards, Faenol Isaf, Tywyn (Meir.) - gair i gall ymchwilwyr di-ofal! Hela cerig (nid hel cerrig) oedd term EE am y gwaith. Dyma graff felly yn dangos ei gofnodion yn nhreftiwn amser yn dangos fesul diwrnod (nifer o ddyddiau y flwyddyn y bu hel cerrig yn digwydd, a pha ddyddiad y digwyddodd (nifer o ddyddiau ar ôl 1 Mai). Doedd dim hel cerrig wedi ei chofnodi yn nwyr flynedd cyntaf y dyddiadur na thair blynedd olaf y dyddiadur. Am grynodeb manylach o'r ymchwil hyd yma ewch i **fan hyn**.

Diwedd yr Haf....



Dau flodyn tebyg sydd yn datgan bod yr haf heibio ei orau. Ar y chwith y **clychlys dail eidew**, ac ar y dde, **clychau'r eos**. Tynnwyd y llun cyntaf ar y 23

Gorffennaf ar daith Cymdeithas Edward Llwyd i Rhos y Gwaliau gan Alun Williams.


Am y clychlys dywed Iwan Roberts: "Anfonais y manylion am leoliad yr uchod (drwy COFNOD) i Sarah Stille, cofnodydd y BSBI ym Meirionnydd. Cefais ateb ganddi yn dweud mai hwn oedd yr ail gofnod yn unig yn sgwar SH93 ers 1969!"

Lluniau: Alun Williams ac Eifion Griffiths

....a ffenoleg clychau'r eos

Tybed ydi clychau'r eos yn blodeuo'n gynt erbyn hyn? Dyma graff wedi ei seilio ar ddyddiadau gweld blodau'r planhigyn hwn yn Y Tywyddiadur ac er nad yw'n profi dim ynddo'i hunan (dim digon o ddata, dim digon systematig), mae'n canu clychau (!). Cofnodion Francis Kilvert yw'r ddua gyntaf a blodau a ymddangosodd ym Mhenisarwaun oedd y cofnod cynnar yna ar 30 Mehefin 2013

DYDDIADAU COFNODI CLYCHAU'R EOS CYMRU
ac ambell un o Loegr



Cofiwch glicio ar y dolenni coch i gael mwy o wybodaeth



Llinellau melyn o dan y Llyfrgell Genedlaethol wedi ffurfio chwysigod yn y gwres mawr 19 Gorffennaf 2016. Roedd rhain yn y cysgod erbyn i mi dynnu'r llun tua 16.30 felly mae'n debyg bod y 'berw' wedi digwydd rhai oriau ynghynt. Sylwais bod y tarmac yng nghyffiniau Caernarfon wedi toddi

y diwrnod cynt (18 Gorff).

Beth am eich sylwadau chi am y diwrnod hwn?

(Roedd ystafell ddarllen y Llyfrgell Genedlaethol bron yn wag ac yn glaear braf- piti am y siwrne bws o Gaernarfon!).

Duncan Brown

Dyma brofiad Gwyn Williams o'r diwrnod hwn: "Roeddwn ym Mhortsmouth yn toddi yn y gwres ddyddiau Llun a Mawrth 19 Gorffennaf. Roedd y thermomedr ar y car yn dangos 35 gradd Canradd. Lwcus bod na air-con yn y car ar gyfer y siwrnai 5 awr adra. Roedd na nifer o farcutiaid cochion i'w gweld ar yr A34 (ffordd osgoi Newbury). Gwyn Williams

Beth oedd eich profiad CHI?

Dyma gofnod o'r diwrnod yng ngorsaf dywydd Gwelfor y bore canlynol: "20 Gorff 2016 Glawiad 21mm max tym 31.6. Coblyn o storm fellt a tharannau yn y nos a glaw trwm (tua 3yb?) ar ol gwres mawr ddoe. Mynyddoedd Wiclo i'w gweld yn glir gyda'r nos meddai Janice drws nesa". DB

Cribo'r enwau



Cribell felen ar dwyni tywod Gronant, Mehefin 10, 2010. Eifion Griffiths

Ewch yma i weld Country Diary Mark Cocker 2 Awst 2016. Dyma rai o'r postiadau ar gynffon y darn:

The rich Welsh names for the yellow rattle recall variously a comb (cribell felen - yellow comb, from the leaf shape?, Cribell Ceiliog - cock's comb); money (Arian Cor - choir money, Arian Gweirwyr - reapers money, Arian Gwion - Gwion's money, Arian y Pladurwr - scythemans money, Arian y Meirch - stallion's money); from the seed sacks, bells (Clych y Meirch - steeds' bells) and sacks (Coden Grimp - parched sack); and finally rattle (Pensiadarad - talking head, Tegan y Baban - baby's toy).

Iowyfen!

Atebodd Roddy MacLean: ...our Gaelic names include bodach nan claireann (the old man of the skulls, named for the dried calyces), gleadhra (rattle), modhalan buidhe (yellow rattle), bainne nan luch (the milk of the mice) and bodach gliogair (the tinkling old man). I'll leave it to others to decide why none of the names concern money! I introduced my Gaelic environment class to it yesterday - some of the plants still with the yellow flowers.



Creyr mawr gwyn, gwarchodfa Natur RSPB, Conwy. Gorffennaf 21: Dyma'r cofnod cyntaf o greyr mawr gwyn i'r warchodfa yng Nghonwy. Nid yw yn lun da gan fod yr aderyn yn bell i ffwrdd ond mae yn dangos y gwahaniaeth mewn maint rhwng y creyr mawr gwyn a'r crehyrod bach.

Alun Williams

Mae'r **creyr bach** (blaendir yn y llun) erbyn hyn yn hen gyfarwydd ar ein haberoedd ers iddyn nhw ymsefydlu yng Nghymru am y tro cyntaf tua 1993. A mae'n debyg bod ei gefnoder y **creyr mawr gwyn** am ei ddilyn yma ('diolch' i'r newid yn yr hinsawdd). Craffwch amdano - a chofnodwch.

Tymheredd Kuwait

Cyrrhaeddodd y tymeredd yn Kuwait, 54C wythnos ein gwres mawr a byr tua'r 19 Gorffennaf. Record i'r hemisffer dwyreiniol ac o bosib y blaned gyfan.

Y gwenith yn fyrach heddiw

Mae coesau grawn fel gwenith yn fyrach heddiw na chanrif yn ôl i **ddygymod â phhlaladdwyr** ac i hwyluso cynaeafu peirianyddol. Meddai un cyfrannwr i'r Country Diary ganrif yn ôl: "one wheatfield is now walled almost breast high" [Manchester Guardian, 5 Awst 1916]. Couldn't happen now as the scientists have reduced the stem height on wheat to knee-high so it can be mechanically harvested. Postiad 1 Awst 2016

Atgofion

Cyfarfod â gŵr diddorol ddoe, oedd yn dod o Lanfaglan ac yn cofio nifer o loynod byw o gwmpas yr hen eglwys yn y 1930au hwyr tybiwn i. Y rhai glas a'r painted lady medda fo

Ifor Williams

Mae'r caeau o gwmpas hen eglwys Llanfaglan erbyn hyn dan reolaeth amaethyddol dwys iawn. Hwn yw'r cofnod cyntaf i ni gael o'r gogoniant naturiol a fu yno.

Golan 23 Medi 2012 (Tom Jones)

"Coch dan Adain wedi cyrraedd erbyn heddiw"

Cofiwch nodi eich adar gaeaf cyntaf



The photos were taken on Skerries / Ynysoedd y Moelrhoniaid yesterday [18 Gorffennaf 2016]. There are over 3,000 Arctic **Terns** on the Skerries this season, along with about 280 Common Terns and one Black Tern. These small islands are the UK's largest Arctic Tern Colony. I managed to photograph one of the 3,000, but was not able to find one of the Common Terns to photograph during my brief visit. By contrast a small island called Rockabill, near the town of Skerries just North of Dublin, there is a colony of around 2,000 Roseate Terns which occupy an area much smaller than that of the Welsh Skerries, and this is Europe's largest Roseate Tern colony. In living memory, Aber Menai had been the location of a large Roseate Tern colony. Skerries / Ynysoedd y Moelrhoniaid, is also home to about 38 Grey Seals, my photo depicts a young one which appears to be molting.

Steve Roddick

Mae'r fuwch-forlo yn bwrw ei blew. Ewch **yma** i weld y patrwm bwrw. Dyma a ddywed Geiriadur Prifysgol Cymru am Moelrhon: "moelrhawn, &c. [moel1+?rhawn neu rhôn1; cf. H. Wydd. rón, Crn. C. ruen, Llyd. Diw. reunig, ac o bosibl H. S. hran, hron] eg.b. II. - iaid, -iau, ?-ion. Swol. Morlo, dyniawed y môr; llamhidydd, morwch; dolffin; hefyd am afonfarch neu hipo ac yn ffig.: seal; porpoise; dolphin; also of hippopotamus and fig."



Bu morwenoliaid Môn yn ysbrydoliaeth i aml i naturaethwr dros y blynnyddoedd. Dyma gofnod Hilda Murrell o Sir Amwythig yn 1981 tra'n ymweld ag ardal Cemlyn, Môn ar y 27 Gorffennaf: *Finding a nook under a rock giving shelter from the icy wind.... I realised that there was a steady movement of terns going and coming across the headland, those going outwards loping along in a slightly undulating flight, each wing-beat taking them many yards. Returning birds had a much more purposeful action; they flew straighter and faster. The tails are folded into one fine point when they are on the move like this. I went across the headland and found they were fishing in the open sea on the far side, a few near the shore, but most of them much further out. Every now and then one would pass low over my head: its speed was such that it was all over in a one second flick.*

Dyddiadur Hilda Murrell (1987) Hilda Murrell's Nature Diaries 1961-1983 (Gol. Charles Sinker). Collins

Diwrnod braf ddoe [Sul: 17 Gorffennaf 2016] ym Mhorth Llechog, Amlwch. Morwenoliaid pigddu yn plymio yn y bae ddechrau'r pnawn, a diwedd y pnawn yn mynd heibio'r trwyn fesul 4 a 6 ar y tro i gyfeiriad Bae Cemlyn, llawer (pob un effalai) yn cario pysgod. Welais i'r un yn mynd i'r cyfeiriad arall erbyn hynny - gorffen yn gynnar dydd Sul yn amlwg!

Duncan Brown

O'r Archifau

Y Missouri yn ei gwendid



Llongddrylliad - SS Missouri, Porth Dafarch 1886

Delwedd camera gynnar o longddrylliad yr SS Missouri ym Mhorth Dafarch, Môn 1886. Sylwch ar yr esgyrn eira.

Tynnwyd y llun o boster hysbysrwydd ar gyfer gwasanaeth Achifau Môn NODION O'R TYWYDDIADUR: Ynys Lawd 1 Mawrth 1886: "a snowstorm was blamed for the loss of White Diamond steamer Missouri" Ivor Wynne Jones Shipwrecks of North Wales

Ac ar yr un diwrnod:

Abergwyngregyn: *weather so very stormy that it is quite impossible to leave the house, the snowdrifts having rendered the roads impassable*

Log Ysgol Abergwyngregyn

Eira mawr yn Lluwchfeydd mawr Cario dwfr i mewn i'r gwartheg

Dyddiadur William Jones Moelfre


Goginan, Aberystwyth: *Walked back to Aberystwyth. During the preceding night a great snow storm passed over the whole country. Few vehicles run to Aberystwyth from Goginan. Many trains being blocked in Wales &c.*

Dyddiadur Richard Llewelyn Headley

Eira Mawrth 1, 1886 Y mwyaf welais i

Dyddiadur Ioan Brothen

Sioe Rwdins Llangefni 1886



Tybed oedd yna syrffed o rwdins yn 1896? Nid yn ôl y ffarmwr hwn o Aberdaron:

Moelfra, Aberdaron 27 Tach 1896: Cario Rwdins 14 llwyth Moelfra, Aberdaron 28 11 1896 Cario 2 lwyth o Rwdins Moelfra, Aberdaron 2 12 1896. Gwneyd y das Rwdins

Dyddiadur William Jones

Dyma'r nifer o lwythi rwdins a gofnododd William Jones, yn eu trenf rhwng 1892 a 1897: 4, (dim cyfanswm 1893), 21, 16 (1896), 17. Doedd dim yn arbennig am 1896 felly.

Tynnwyd y llun o boster hysbysrwydd ar gyfer gwasanaeth Achifau Môn

Plant Aberffraw yn y Rhyfel Byd Cyntaf

Mi WNEWCH chi hel mwyar duon.....

Ym misoedd olaf y Rhyfel Byd Cyntaf bu'n rhaid i ysgolion Môn a Gwynedd (o leiaf) fynd allan i gasglu mwyar duon:

2 Medi 1918: *School closed in the afternoon for Blackberry picking in conformity with LEA circular dated 20 August 1918. The big children were arranged in four sections, each section being in charge of a teacher.* Log Ysgol Aberffraw (Archifau Mon, Llangefni)

Nodwyd 6 achlysur yn yr un mis yn Aberffraw a 3 achlysur yn Abergwyngregyn. Caewyd yr ysgol ar gyfer y gorchwyl. Ymddengys bod y plant wedi cael blas gan fod casglu mwyar duon yn achos triwant y flwyddyn canlynol!

25 Medi 1919: *This and last week's blackberry gathering has told adversely on the attendance*

Log Ysgol Aberffraw

Tybed beth oedd ysgogiad pennaf y gorchymyn hwn. Diffyg maeth y plant yn ystod rhyfel? Prinder athrawon cymwys? ynteu syrffed o fwyr duon:

Blackberries were dirt cheap in Swansea Market yesterday [21 Awst 1918] — only 8d. a pound. Whatever can be the matter?

Cambrian Daily Leader Iau 22 Awst, 1918

There is an abundance of blackberries around Gower. In Crawley Woods it is estimated that an average man could easily pick a hundredweight a day.

South Wales Weekly Post 21 Medi 1918

..... ond mi GEWCH chi hel coed tan

Tri mis ar ôl y cadoediad cafwyd y ddau gofnod yma:

Aberffraw, Môn 28 Chwefror 1919: ... attendance small – under 50% in top classes. For some time there has been a dearth of coal in the village, and most houses have to depend for fire on brushwood.

Aberffraw Môn, Llangefni: 4 Mawrth 1919. With the coal famine and the cold frosty weather, there is much distress in the village and many of the bigger children are engaged in gathering what material for the fire they can get. Log Ysgol Aberffraw, Môn (Archifdy Môn)

Perlau yn y gwawn



26 Medi 1983,
Llanymynech: *There was solid fog early, yellowish at first in the low light, but soon turning paler and sinking in solid white bars along the valleys, leaving just the tips of the foothills visible. Berwyn was hidden in higher and denser cloud. I went up on the hill, but earlier would have been better; by the time I got to the crag, the white cotton wool was dissolving into low grey wisps, which were driven along the river valleys towards England by a steady southwest breeze. The really wonderful site was not this, but the cobwebs, not the usual kind but three-dimensional ones, nearer to fabric than thread, so close woven was the gossamer. The dew had been heavy, and they were spangled with droplets so small that I counted twenty of them on a bare inch of thread, but though minute they were brilliant reflectors of pure celestial light. Miraculously I had the sun behind me when I bent to look at one of them, to find an inverted rainbow playing across it, very softly orange and green and blue, living specks of opal. The fineness of the filigree was breathtaking. These super-cocoons were everywhere in hundreds. I only saw one of the more usual cart wheels but it was a superb structure.*

Dyddiadur Hilda Murrell (1987) Hilda Murrell's Nature Diaries 1961-1983
(Gol. Charles Sinker). Collins (Llun: Helga Martin)

Meddai'r arbenigwr pryfed cop Richard Gallon: She's almost certainly describing *Linyphiidae money spiders*. It could either relate to numerous money spider sheet webs within short grass; the density of these webs is often only revealed when they are highlighted with dew (*Erigone atra* and *Erigone dentipalis* are typical culprits). Or it might be one of those mass ballooning events where several different species of money spider decide to balloon at the same time. The gossamer can then build up into surprisingly thick layers on fences and structures (the two *Erigone* species are often involved, but species like *Tenuiphantes tenuis* and particularly *Ostearius melanopygus* are also key players here).

Dadgordeddu draenog



Pan aethom i mewn i adeilad fferm i fodrwy o cywion Dylluan Wen oedd yn nythu yno, gwelsom Ddraenog Coed ar y llawr, oedd yn gymysgedd o wair a gwellt rhydd a rhwydi lapio byrna mawr. Meddwl gynta ei fod wedi marw, ond o roi bwn bach iddo, caeodd yn belen bigog yn dynnach. Sylweddoli wedyn ei fod o'n sownd yn y rhwydi. Torwyd o'n rhydd gyda chyllell boched a'i gario allan i fan diogel. Wyddem ni ddim os oedd darnau o rwyd yn sownd yn ei goesau (am ei fod yn dal yn belen) felly penderfynnu gadael llonydd iddo am ychydig. O ddychwelyd i'r fan, roedd wedi diflannu - yn fyw ac yn iach gobeithio! (Er i'r ffermwyr fod yn gyfrifol am rhoi rhwydi lapio i fewn yn yr adeilad, allan o gyrraedd anifeiliaid fferm a gwylt, gallodd y draenog fynd i mewn trwy dwll oedd yn waelod y drws).

Wil Williams

Dyma ddraenog arall (chwith) llai ffodus. Tynnwyd y llun rhywle ym Meirionnydd yn y 90au.

A'r foeswers: wel deudwch chi! Taclusrwydd yn nghefn gwlaid boed allan yn y caeau neu hyd yn oed yn y siediau.



Y Ladi Wen, Llanbadrig

Roedd Wil Williams a finnau yn ardal Llanbadrig ger Cemaes [26 Gorff, 2016] ac wrth siarad efo gwahanol bobl cawsom sawl gwaith ganddynt "ydych chi wedi gweld y Ladi Wen?". Dyma fynd i weld y dywedegid Ladi Wen yn y bae o dan yr eglwys, a dyma'r llun a dynnais ohoni (y graig wen - y stack - yn sefyll ar ei phen ei hun ynghanol y bae).

Duncan Brown



O'r llun medrwn weld bod y ladi wen a'r creigiau tebyg gerllaw llawer caletach (er yn fregus a llawn craciau) na'r creigiau a oedd unwaith bob ochr lle mae clogwyn isel y traeth o glai (till, gwaddod rhewlifol). Mae stack yn stack - dim dirgelion sut mae wedi ffurio. Mae'n 'ladi wen' oherwydd hindreulio gan heli wedwn i. O fap daeareg arlein y BGS (graddfa mawr) medrai weld mai *Gwna schist a quartzite* yw'r creigiau (oed pre-Cambraidd hwyr, tua 650 i 600 Ma [miliwn o flynyddoedd oed]). Tybiaf mai quartzite caled yw'r ladi wen a schist meddal sydd wedi erydu ac yn gudd o dan y clai.

Math Williams



Roeddwn yn cerdded llwybyr yn ymyl Gwyddel, Uwchmynydd bnawn 27 Gorffennaf 2016. Tybed beth yw rhain? Ffermwyr o'r ardal yn tybio mai Arfog (maip gwylt) ydi o, ond ffermwyr arall yn meddwl mai tafodiaeth pen Llýn yw'r gair yma. Mae Gwyn fy mhriod yn dweud y gall hadau aros yn fud yn y ddaear am flynyddoedd nes fod y tir yn cael ei droi.

Dyma beth ddywedodd y ffermwyr wedyn ar y ffôn: "Chwyn ydyn nhw" Mi blannodd hadau gwair a rŵp i'r gwartheg bor. Dyma finna'n dweud "Mae'n siwr fod na enw i'r chwyn yn does? "Charlock" meddai, maip gwylt. Dyma ddod a ni'n ôl i'r enw Arfog felly, maip gwylt..... dywedodd y ffermwyr hefyd fod y gwenyn wrth eu bodd gyda'r bloda melyn. Rwyf yn gobeithio cael mynd i gerdded yr un ffordd eto i mi gael eu hastudio'n fanylach.

Netta Pritchard

Geirfa (Enw Cymraeg safonol/(enwau amgen)/gwyddonol/enw Saesneg):

rêp: (Bresych yr ŷd Erfinen yr ŷd Maip yr ŷd Meipen Wyllt Meipen yr ŷd) *Brassica napus* rape
mwstard gwylt: (Cedw Gwylt Aur yr ŷd Cadafarch Cadafarth Cedu Gwylt Cedu yr ŷd Cedw yr ŷd Cethrw yr ŷd Esgynnnydd Maip Gwyltton Ysnaib yr ŷd) *Sinapis arvensis* charlock
roced y berth: (Cedw'r Berth Arfog Arfog Meddygawl Arfog Meddygol Cedw'r Gwrych Ceddw'r Berth) *Sisymbrium officinale* hedge mustard

Fel welwch o'r lluniau (dolenni coch) bod y cnwd debycaf i fwstard gwylt *Sinapis arvensis*, charlock chwedl y perchen, neu maip gwylt. Ai camgymeriad oedd arfog ynteu ffurf dafodieithol Llyn am yr un peth?

Dyma be sydd gan Mabberley (yr hanesydd botaneg) i ddweud am y planhigyn: *Sinapis arvensis*: (...charlock, runch) - farmweed, formerly famine food (Ireland), formerly very common in cornfields, the seeds remaining viable for at least 10 years even after ingestion by animals. Mabberley's Plant Book - A portable dictionary of plants, their classification and uses. CUP

Dyma Netta eto: "Wedi dangos [hyn] i Gwyn ag yntau'n dweud iddo glywed rhywun yn dweud am i'r hadau fod yn fud yn y ddaear am 70 o flynyddoedd. Roedd y cae heb ei aredig ers amser y rhyfel ag yna'n cael ei aredig tua 1977, ac fe aeth y cae yn felym yn dilyn hyn. Roedd y cae dan sylw yn ardal Llannor. Tydi Natur yn ddiddorol?"



Roedd y llyg cyffredin (*Sorex araneus*) yma yn gelain, yn ffres ac yn gyfa ynghanol y lôn ar allt serth Ceunant, Waunfawr 31 Gorffennaf 2016. Duncan Brown

Mae'r ffenomenon o gyrrf llygon heb unrhyw anaf nag olion ymgais i ymguddio cyn marw yn gyfarwydd i bawb (weithiau gwelir tychod daear yn yr un modd). Ond pwysydd yn gwybod pam? Mae'n hysbys effalai bod cathod yn dal llygon ac yn chwarae ânhw ond yn cadw rhag eu bwytia, ond go brin bod hynny yn esbonio pob un o'r rhai cwbl di-anaf fel hwn. Tybed oes esboniad arall.

Darganfyddais wrth astudio prae y dylluan wen bod y nifer o lygon mewn pellenni yn cynyddu yn yr haf ac o fesur traul eu dannedd cafwyd mai unigolion "hen" oedd rheini (gweler yr atodiad isod) Tybed ai hen anifeiliaid yn dod i ddiweddu eu hoes (a'u dannedd!) yw rhain. Os felly disgwyli patrwm tymhorol yn y cyrrf hyn (mwy yn yr haf?).


COFNODEWCH EICH LLYGON MEIRW AR WEFAN LLEN

NATUR I GEISIO ATEB Y CWESTIWN HWN

(cofiwch nodi fel pob amser, lle a phryd y'i gwelsoch) Gol.

Y dylluan wen a'i phrae:

Tua diwedd y 1970au cynhalwyd arolwg fanwl o fwyd y dylluan wen mewn dau safle ym Meirion. Cafwyd bod y ddau brif ysglyfaeth, llygoden pengron y gwair a'r llyg cyffredin yn ffeirio eu dyrchafiaeth gyda'r tymor, y naill yn bwysicach yn y gaeaf a'r llall, y llyg, yn bwysicach yn yr haf.



Anifeiliaid 'hen' oedd rhain, rhai blwyddyn oed (mae'n debyg mai blwyddyn yw hoedledd naturiol y llyg). Fel arfer anifeiliaid ifanc sydd yn fwy tebygol o gael eu dal gan adar ysglyfaethus, ond yn achos y llygon, y to hŷn sydd yn cael yr "anrheddedd hwnnw".

Duncan Brown (yn Bird Study 1981: rhifyn 28:139-146)

Emrallt y Perlysiau: gwyfyn newydd i Brydain

Ar ddechrau mis Gorffennaf eleni daliwyd gwyfyn yn Costessey [yng. Cosi], Swydd Norfolk, sydd fel rheol yn trigo yng ngwledydd Ewrop a rhai mannau eraill, gan gynnwys Pakistan. Dyma'r tro cyntaf iddo gael ei weld ym Mhrydain. *Microloxia herbaria* yw enw'r gwyfyn, neu'r Herb Emerald yn Saesneg, ac mae'n perthyn i Deulu'r Brychanau (Geometrinae) – (gweler tudalen 11 o Lyfr 3 yng nghyhyfres enwau Cymdeithas Edward Llwyd). Awgrymodd Duncan Brown y dylid ei enwi yn Gymraeg yn Emrallt y Perlysiau. Erbyn hyn mae son bod un arall wedi'i ddal yn Swydd Gaerloyw. Yn ôl arbenigwyr mae ffurf y gwyfyn o Swydd Norfolk yn debyg i'r rhai sydd i'w gweld yn yr Eidal a dwyraint Ewrop, a thŷbir iddo gyrraedd y wlad yma mewn planhigion o'r Eidal a ddaeth i ganolfan garddio lleol.

Dafydd Lewis



PokéMon

v Natur



Reit ta - ma ffenomenon PokéMon yn ein hannog allan i gefn gwlad i chwilio am greaduriaid dychmygol fel Butterfree, Beedrill a Caterpie. Mae na 151 i gasglu! Ond tra'n chwilot a, beth am edrych allan am rhai o'r 40,000 o drychfilod byw sydd llawn mor angyffredin?



Pry Scorpion - Dyma bry go gyffredin ond golwg go angyffredin efo pig fel aderyn a chynffon fel scorpion er ei fod yn gwbwl ddiniwed. Dawn arbennig: gall gipio pryfaid o we pry cop



Yn cario ei gartref ar ei gefn, ganddo un troed, llygaid ar beriscop a mwy o ddannedd na siarc



Gwalch Wyfyn y Penglog - nodweddion arbennig - patrwm y benglog ar ei wegil ac yn dwyn mîl o gychod gwenyn. Dawn arbennig: gall whichian i ddynwared brenhines y gwenyn



Her : ar bapur A4 creu creadur dychmygol gan ystyried nodweddion amddiffyn, ei fwyd, y math o gynefin mae'n byw yn ymddygo a rhoi enw addas iddo. Gwobr £10 i'r creadur gorau



Neidr filtroed sy'n gallu troi yn bêl i amddiffyn ei hun

